

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872 | 1872 150 2022 | Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Astudiaethau israddedig mewn

# Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Croeso gan ein myfyrwyr | t.2 |
| Ein cyrsiau | t.4 |
| Encil ysgrifennu Gregynog a chyfleoedd ychwanegol | t.14 |
| Ymchwil yr adran | t.16 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.18 |
| Sut i wneud cais | t.20 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2020 PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

THE TIMES THE SUNDAY TIMES CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2019 PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD Y DYSGU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mehefin 2022), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



# Croeso

Yma yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym yn cynnig profiad myfyriwr ardderchog. Mae ein myfyrwyr ymhlith yr hapusaf ac yn cael addysg gyda'r gorau yn y wlad, ac rydym yn ymfalchïo ein bod wedi ein dyfarnu'n un o'r adrannau Saesneg sydd ar y brig yn y DU am ansawdd y dysgu a phrofiad y myfyriwr.

Fel prif ddinas ddiwylliannol Cymru ag iddi enw da'n rhyngwladol, mae Aberystwyth yn lle arbennig iawn i astudio ynddo. Nid yn unig y mae'r Brifysgol wedi'i lleoli yn un o'r ardaloedd harddaf posib, ond mae hefyd yn cynnig adnoddau academaidd a chyfleoedd dysgu rhagorol.

Rydym yn cynnig cyrsiau hyblyg sy'n cyfuno'r traddodiadol a'r arloesol, yr ehangder a'r dyfnder. O Chaucer i Twitter, mae'r ysgrifennu a gynhyrchir gennym a'r testunau rydym yn ymdrin â hwy wedi herio cenedlaethau o ddarllenwyr. Mae gan lenyddiaeth y grym i greu newid gwirioneddol, ac yn Aberystwyth byddwch yn gallu sianelu eich angerdd eich hun tuag at ddarllen ac ysgrifennu er mwyn cyfrannu yn eich ffordd eich hun i'n hetifeddiaeth lenyddol ac i lenyddiaeth y dyfodol.

Mae gennym lyfrgell rhagorol yn y brifysgol ac, ar ben y casgliad arferol o gyhoeddiadau ysgolheigaidd a beirniadol, mae'n gartref i gasgliad hynod ddiddorol o lyfrau prin a fydd yn rhoi pleser i unrhyw un sydd â diddordeb mewn darllen a'r grefft o greu testun. Yn ogystal, mae gennym un o'r llyfrgelloedd mwyaf yn y byd ar garreg ein drws – Llyfrgell Genedlaethol Cymru – sy'n un o ddim ond pum sefydliad hawlfraint yn y Deyrnas Unedig sydd â'r hawl i dderbyn copi o bob llyfr a gyhoeddir. Mae'r Adran hefyd yn gartref i'r New Welsh Review – prif gylchgrawn llenyddol Cymru – a'r Journal of Welsh Writing in English. Trwy'r cysylltiadau hyn, rydym yn cynnig cyfleoedd cyffrous ichi i fod yn rhan o amrywiaeth o weithgareddau ysgrifennu a chyhoeddi, cyfleoedd interniaeth a hyfforddi.

Rydym yn  darparu addysgu o safon eithriadol o uchel ar bob un o'n cyrsiau gradd, ac yn sicrhau bod eich dawn yn cael ei feithrin a'i oleddu. Bydd hyn yn creu cyfleoedd gyrfa gwych i chi. Aeth ein myfyrwyr ymlaen i lwyddo mewn amrywiaeth o swyddi a gyrfaoedd y mae llawer o gystadlu amdanynt. Yn ddiweddar cafodd graddedigion eu derbyn gan rai o fawrion yr asiantaethau llenyddol yn y DU a chafodd gwaith rhai ei gyhoeddi gan rai o'r gweisg uchaf eu parch, yn cynnwys Faber & Faber a Penguin.

Bob blwyddyn, rydym yn trefnu darlithoedd a gweithdai gan siaradwyr gwadd, sy'n cynnwys pob math o lenorion enwog, ysgolheigion, a phobl proffesiynol o'r diwydiant ledled y byd. Ymysg y rhai sydd wedi ymweld yn ddiweddar mae: y colofnydd a beirniad Caitlin Moran; y bardd llawryfog Carol Ann Duffy, cyn Fardd Cenedlaethol Cymru Gillian Clarke a'r bardd arobryn, Andrew McMillan; y nofelwyr Niall Griffiths, Gareth L Powell, a Sarah Hall; a'r blogiwr poblogaidd a rheolwr y cyfryngau cymdeithasol i Vintage, Leena Normington.

Gobeithio y bydd y llyfryn hwn yn rhoi blas ichi o'r pynciau a gynigir gennym, ond rydym yn eich annog i ddod i ymweld â ni i ganfod mwy. Gallwn roi rhagor o wybodaeth ichi am ein graddau a'ch cyflwyno i'n cymuned fywiog o athrawon, ysgolheigion a myfyrwyr. Edrychwn ymlaen at eich cyfarfod.

**Dr Louise H Marshall**
**Pennaeth Adran**



# Croeso gan ein myfyrwyr

## Ivy Napp

**Llenyddiaeth Saesneg**

"Mae fy mhrofiad yn astudio Llenyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi newid fy mywyd yn llwyr er gwell. Rydw i wedi magu mwy o hyder ynof fy hun ac yn fy ngallu nag y byddwn wedi dychmygu, diolch i'r cwrs rhagorol a'r bobl sydd yma. Rydw i wedi tyfu fel unigolyn ac wedi datblygu llawer o sgiliau newydd, defnyddiol mewn ymarfer creadigol a beirniadol a fydd yn aros gyda fi am byth. O fodiwlau ar destunau hynafol i rai ar iaith chwareus y cyfnod ôl-foderniaeth, mae'r cwrs yn amrywiol ac yn hyblyg. Roeddwn i wedi gallu cymryd modiwlau ar gelf ac ysgrifennu creadigol wrth gyflawni fy ngradd llenyddiaeth – gradd ragorol sy'n dangos bod Aber yn brifysgol sy'n rhoi blaenoriaeth i les a dysg ei myfyrwyr.

Yn anad dim, mae fy ngradd wedi bod yn wych oherwydd brwdfrydedd, caredigrwydd, a chefnogaeth anhygoel gan staff ar lefel broffesiynol a phersonol. Maent yn mynd y tu hwnt i'r addysgu i ddod â'r llenyddiaeth yn fyw. Gyda digon o amser cyswllt yn y seminarau a'r tu allan iddynt, system gefnogi, a pharodrwydd i gymryd rhan yn nigwyddiadau cymdeithasau'r myfyrwyr, chwaraeodd yr adran a'i staff ran fawr iawn yn creu profiad mor wych i mi yn Aberystwyth.

Y tu allan i'r neuadd ddarlithio, mae'r cyfle i fod yn aelod o bwyllgor y Gymdeithas Ysgrifennu Creadigol yn un o lawer o enghreifftiau lle rwy'n teimlo i mi gael profiad myfyriwr cynhwysfawr yn y dref hon sy'n llawn o bosibiliadau. Cyn dod i astudio yn Aber, fyddwn i erioed wedi meddwl y gallwn ysgrifennu, perfformio, a chyhoeddi cerddi, na chyfweld ag awduron am eu llyfrau newydd a'u hymchwil arloesol. Fyddwn i byth wedi meddwl y gallwn gael profiad gwaith ar gylchgrawn cyhoeddedig, trefnu digwyddiadau elusen, na nofio yn y môr sydd mor agos i'r llety. Mae'r holl gyfleoedd hyfryd yma wedi bod yno i mi yn Aber a fyddwn i ddim yn oedi rhag argymell eich bod yn astudio Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yma. Yn fwy na hynny, ni allaf ei argymell ddigon!"

## Chloe Clarke

**Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**

"Rydw i wedi cael dwy flynedd wych yn barod yn astudio Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn Aberystwyth, ac rwyf nawr yn dechrau ar fy nhrydedd flwyddyn yn llawn cynnwrf. Nid yn unig yr ydw i wedi tyfu fel person ac wedi gwneud ffrindiau anhygoel, ond rydw i hefyd wedi mwynhau'r cwrs i'r eithaf. Mae'r modiwlau Ysgrifennu Creadigol wedi rhoi'r sgiliau yr oedd eu hangen arnaf i wella fy ysgrifennu. Yn ogystal â theimlo'n fwy hyderus, gallaf weld y gwelliant yn fy ngwaith. Yn ystod y modiwl 'Beginning the Novel' dysgais sut i ysgrifennu mewn gwahanol arddulliau a genres, a datblygais gyfres o sgiliau ehangach yn gyffredinol. Mae'r gweithdai Ysgrifennu Creadigol yn rhoi cyfle i chi i rannu eich gwaith a chael adborth gan eich darlithwyr a'ch cyfoedion. Mae'r modiwlau Saesneg yr un mor wych. Mae modiwlau fel 'Place and Self' ac 'Encountering Texts' wedi rhoi cyfle i mi astudio amrywiaeth mawr o lyfrau diddorol a grymus. Yn ogystal â hyn, mae cydbwysedd da rhwng seminarau mewn grwpiau bach ac addysgu grwpiau mawr mewn darlithoedd.

Nid yn unig mae'r radd yn ddiddorol ac yn ddeniadol, ond mae'r staff yn hollol wych. Maent yn anhygoel o gefnogol ac wastad yn barod i'ch helpu, trwy ddarllen eich gwaith, awgrymu sut y gallwch wella, neu trwy ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mae'r adran yn hyfryd ac yn groesawgar, ac os oes angen ichi ofyn unrhyw gwestiynau i'r staff, rydych yn debyg o'ch cael eich hun yng nghyntedd hynod ddymunol yr Adran Saesneg, lle mae peiriant coffi, llyfrau, cylchgronau - lle hollol gartrefol. Mae yma Gymdeithas Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol hefyd, sy'n ffordd wych o wneud ffrindiau, siarad am lyfrau yn y clwb llyfrau wythnosol, rhannu gwaith mewn gweithdai a sesiynau 'open mic', a mynd i sgyrsiau gyda llenorion lle mae awduron cyhoeddedig yn rhannu eu gwaith a'u profiadau yn y maes. Yn fy nghyfnod yn Aber, mae awduron fel Gillian Clarke, Hayley Long a Kate Hamer wedi cynnal sgyrsiau.

Mae Aberystwyth yn lle gwych i fyw; mae'r Llyfrgell Genedlaethol bum munud o'r campws, heb anghofio am y traeth hyfryd lle gallwch ddarllen, mynd i nofio, cynnau tân, ymweld â'r castell, a gwylio'r machlud hardd. Dewch i ymweld â ni er mwyn ichi weld Aber yn ei holl ogoniant trosoch eich hun."





# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl

Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd t.5
Astudiaethau Saesneg a TESOL t.6
Llenyddiaeth Saesneg t.7
Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol t.8
Ysgrifennu Creadigol t.10
Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc t.11

## Graddau sylfaen

Astudiaethau Saesneg a TESOL t.12
Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol t.13



# Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh)

Mae ein cwrs BA mewn Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd yn cynnig dealltwriaeth drwyadl a beirniadol o'r trafodaethau ideolegol sy'n siapio'r modd yr ydym yn darllen ac yn ysgrifennu, yn herio ein canfyddiadau ynghylch y mannau hynny yr ydym yn darllen ac yn ysgrifennu yn eu cylch, ac yn holi pwy ydym ni mewn gwirionedd. Trwy godi cwestiynau dadleuol ynghylch ymateb dynol ryw i newid hinsawdd, bydd y cwrs hwn yn rhoi ichi'r sgiliau a'r wybodaeth i allu dadansoddi amrywiol safbwyntiau ar her fyd-eang.

Mae'r cwrs Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd yn rhoi gwybodaeth arbenigol am ymatebion ffuglennol ac anffuglennol i'r hinsawdd. Byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol ym maes Ysgrifennu am Argyfyngau mewn gwahanol genres a ffurfiau.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd yn Aberystwyth:

- ymwneud â, a datblygu, dull amlddisgyblaethol bendant o drafod newid hinsawdd, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r wyddoniaeth sy'n sail i'r argyfwng hinsawdd
- dadansoddi achosion a chanlyniadau newid hinsawdd a diraddio amgylcheddol, a sut mae llenyddiaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw yn cyfeirio at newid hinsawdd
- archwilio'r cysylltiadau rhwng newid hinsawdd a heriau byd-eang eraill a'r modd maent yn cael eu cyfleu i wahanol gynulleidfaoedd
- myfyrio ar y modd y mae cynefinoedd, adnoddau a systemau ecolegol ein planed yn cael eu hadlewyrchu yn y straeon yr ydym yn eu hadrodd, ac yn siapio'r straeon hynny.

**Cyflogadwyedd**

Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus mewn sefyllfa dda i ddilyn gyrfa ym meysydd rheoli, addasu a lliniaru newid hinsawdd yn y DU a thramor. Byddant hefyd yn gymwys ar gyfer gyrfaoedd mewn meysydd cysylltiedig megis addysg amgylcheddol ac ymgynghori, neu gadwraeth. Mae eraill yn debyg o fynd ymlaen i astudio ar lefel uwchraddedig - gradd Meistr neu Ddoethuriaeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- Creative Practice
- Critical Practice
- The Science of Climate.

**Yr ail flwyddyn:**

- Literature and Climate in the Nineteenth Century
- Literary Theory: Debates and Dialogues.

**Y flwyddyn olaf:**

- The Writing Project
- Undergraduate Dissertation.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Contemporary Writing and Climate Crisis
- Speculative Fiction and the Climate Crisis
- Crisis Writing
- Literatures of Surveillance
- Animals in Literature
- Literature and the Sea
- Contemporary Queer Fictions
- Adventures with Poetry
- Demons and Degenerates
- Writing Crime Fiction
- Telling True Stories
- Reading and Writing Fantasy Fiction
- Writing and Place
- Literary Geographies.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** FQ73.

**Hyd:** 3 blynedd.

# Astudiaethau Saesneg a TESOL

0% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

Gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (Q331)
Gyda blwyddyn integredig yn astudio dramor (Q332)

Mae'r cwrs BA mewn Astudiaethau Saesneg a TESOL (dysgu saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill) yn gyfle ichi astudio llenyddiaeth Saesneg ar hyd y canrifoedd, i ddadansoddi'r defnydd o iaith ac i archwilio ysgrifennu at wahanol ddibenion creadigol. Ar yr un pryd, cewch ddatblygu eich dealltwriaeth o'r iaith Saesneg a chaffaeliad iaith i'ch galluogi i ddysgu Saesneg fel ail iaith, gan wella'ch rhagolygon gyrfaol ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal, cewch ddewis dilyn cwrs a fydd yn arwain at gymhwyster proffesiynol annibynnol - y dystysgrif dysgu saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (TESOL).

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Astudiaethau Saesneg a TESOL yn Aberystwyth:

- dysgu ochr yn ochr ag ymchwilwyr sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol am eu cyfraniadau i wybodaeth a datblygu'r ddisgyblaeth
- manteisio ar draddodiad cryf o addysgu TESOL, ysgrifennu menywod, daearyddiaeth lenyddol, llenyddiaeth plant, ysgrifennu o Gymru yn Saesneg, ysgrifennu LGBTQ+, llenyddiaeth ôl-drefedigaethol, astudiaethau'r canol oesoedd a Rhamantiaeth, ymhlith eraill.

**Cyflogadwyedd**
Gyda gradd mewn Astudiaethau Saesneg a TESOL byddwch mewn sefyllfa dda i wneud cais i astudio'n bellach neu i gael swydd yn syth ar ôl graddio. Bydd y llwybrau gyrfaol fydd ar gael ichi'n cynnwys ysgrifennu copi digidol, golygu, dysgu Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill, geiriadureg, newyddiaduraeth cylchgronau, papurau newydd, neu'r cyfryngau newydd, cyhoeddi, golygu copi/prawf ddarllen, addysg gynradd, uwchradd neu drydyddol, gwaith gydag asiantaethau talent, rheoli cynnwys ar wefannau, ac ysgrifennu

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Critical Practice
- Creative Practice
- Language Awareness for TESOL.

**Yr ail flwyddyn:**
- Literary Theory: Debates and Dialogues
- Approaches, Methods, and Teaching Techniques in TESOL.

**Y flwyddyn olaf:**
- Undergraduate Dissertation or The Writing Project
- TESOL Materials Development and the Application of Technologies.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Kapow! Reading and Writing Graphic Narratives
- Adventures with Poetry
- Telling True Stories
- Writing Selves
- Writing and Place
- Writing Crime Fiction
- Reading and Writing Fantasy Fiction
- Shaping Plots
- Poetry for Today
- Contemporary Queer Fictions
- Demons and Degenerates
- Literature and the Sea
- Contemporary Writing and Climate Crisis
- Reading and Writing Science Fiction.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** Q330 (Q331 gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant), (Q332 gyda blwyddyn integredig yn astudio dramor).

**Hyd:** 4 blynedd.



# Llenyddiaeth Saesneg

22% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

Bydd ein gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg yn tanio eich dychymyg trwy archwilio'r ystod ehangaf bosibl o destunau a diwylliannau llenyddol. Rydym yn cynnig dewis rhagorol o gyrsiau i'n myfyrwyr, o gyfnod y canol oesoedd cynnar hyd heddiw.

Cewch ddarganfod amrywiaeth eang o agweddau ar lenyddiaeth a diwylliant. Cewch eich annog i ddarllen yn eang ac i feddwl yn feirniadol am ysgrifennu ac am ei gyd-destun, ochr â thueddiadau athronyddol a gwleidyddol sy'n effeithio ar y ffyrdd yr ydym yn darllen ac yn ysgrifennu.

Wedi ichi gwblhau'r cwrs bydd gennych allu digamsyniol i fynegi a chyfathrebu, wedi'i asio â gwybodaeth arbenigol a sgiliau ymchwil. Byddwch yn darganfod eich potensial fel dysgwr annibynnol wrth weithio mewn amgylchedd dysgu gofalgar a strwythuredig, a fydd yn eich galluogi i ragori.

Dyma'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Llenyddiaeth Saesneg yn Aberystwyth:

- cyfle i ddysgu ochr yn ochr ag ymchwilwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol am eu cyfraniadau i wybodaeth a datblygu'r ddisgyblaeth
- traddodiad cryf o addysgu arbenigol ym meysydd ysgrifennu menywod, daearyddiaeth lenyddol, llenyddiaeth plant, ysgrifennu o Gymru yn Saesneg, ysgrifennu LGBTQ+, llenyddiaeth ôl-drefedigaethol, astudiaethau'r canol oesoedd a Rhamantiaeth
- cyfleoedd i weithio gyda chyhoeddiadau academaidd a sefydliadau diwylliannol blaenllaw megis yr International Journal of Welsh Writing in English a'r *New Welsh Review* – cylchgrawn llenyddol mwyaf blaenllaw Cymru – a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth – un o'r canolfannau celfyddydol mwyaf yng Nghymru, a gydnabyddir fel canolfan genedlaethol o bwys ym maes y celfyddydau.

**Cyflogadwyedd**
Mae gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg yn cynnig hyfforddiant 'safon aur' ar gyfer unrhyw swydd lle mae cyfathrebu yn hollbwysig. Bydd ein modiwlau'n cynnig ichi'r sgiliau angenrheidiol er mwyn llunio CV cynhwysfawr sy'n dangos amrywiaeth eang o sgiliau. Mae ein graddedigion yn cael gwaith mewn amryw helaeth o feysydd, yn cynnwys darlledu, newyddiaduraeth, hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, addysg, y gwasanaeth sifil, cyllid a'r cyfryngau newydd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf**
- Ancestral Voices
- Critical Practice.

**Yr ail flwyddyn**
- Literary Theory: Debates and Dialogues.

**Y flwyddyn olaf**
- Reading Theory / Reading Text
- Undergraduate Dissertation.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Contemporary Queer Fictions
- Demons and Degenerates
- Greek and Roman Epic and Drama
- Re-imagining Nineteenth-century Literature
- Literature and the Sea
- Contemporary Writing and Climate Crisis
- Chaucer in the Then and Now
- Re-imagining Nineteenth-century Literature
- Haunting Texts
- Shakespeare, Jonson, and Company
- Literatures of Surveillance
- Animals in Literature
- Reimagining the World Wars
- Speculative Fiction and the Climate Crisis.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** Q300.

**Hyd:** 3 blynedd.

# Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

22% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

Bydd ein cwrs cyfun mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn rhoi ichi'r cyfle i ddatblygu i fod yn ymarferydd creadigol yn ogystal ag un beirniadol. Bydd y radd yn eich helpu i ehangu amrywiaeth a hyd a lled eich dawn ysgrifennu, a'ch galluogi i weithio'n hyderus mewn sawl ffurf a genre.

Byddwch yn datblygu ymarfer ysgrifennu adfyfyriol a arweinir gan wybodaeth eang o ysgrifennu cyfoes ac o'r gorffennol, dealltwriaeth o'r cyd-destun llenyddol a diwylliannol sy'n gefndir i'r broses o ysgrifennu ac o ddarllen llenyddiaeth; ac ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wahanol agweddau ar astudio llenyddiaeth ac ysgrifennu.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn Aberystwyth:

- cyfle i ddysgu ochr yn ochr â thîm o awduron nodedig, arobryn, sy'n gweithio ar draws sbectrwm eang o feysydd creadigol
- traddodiad cryf o ddysgu arbenigol ym meysydd megis ysgrifennu menywod, ysgrifennu a lle, ysgrifennu LGBTQ+, drama'r Dadeni a Rhamantiaeth
- cyfleoedd i ddatblygu eich ysgrifennu gydag ymarferwyr a chanddynt arbenigedd mewn amryw helaeth o arddulliau megis barddoniaeth gyfoes, y nofel graffig, ffuglen wyddonol, ac ysgrifennu ar gyfer y llwyfan, y sgrin, a'r radio
- cymryd rhan mewn enciliad ysgrifennu a gynhelir mewn tŷ yng nghefn gwlad canolbarth Cymru.

**Cyflogadwyedd**
Mae gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn cynnig hyfforddiant 'safon aur' ar gyfer unrhyw swydd lle mae cyfathrebu yn hollbwysig. Mae llawer o'n graddedigion yn ysgrifenwyr llwyddiannus ac yn cyhoeddi mewn amrywiaeth fawr o feysydd megis ffuglen, ysgrifennu ffeithiol, y cyfryngau newyddiadurol, barddoniaeth, ysgrifennu ar gyfer y sgrin a drama. Mae eraill wedi datblygu gyrfa lwyddiannus ym maes cyhoeddi, newyddiaduraeth, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, dysgu, golygu, a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Creative Practice
- Critical Practice.

**Yr ail flwyddyn:**
- Literary Theory: Debates and Dialogues.

**Y flwyddyn olaf:**
- The Writing Project
- Undergraduate Dissertation.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Ancestral Voices
- Contemporary Queer Fictions and Demons
- Kapow! Reading and Writing Graphic Narratives
- Degenerates and New Women (Fin De Siècle Fictions)
- Greek and Roman Epic and Drama
- Re-imagining Nineteenth-century Literature
- Literature and the Sea
- Adventures with Poetry
- Contemporary Writing and Climate Crisis
- Telling True Stories: Ways of Writing Creative Non-fiction
- Writing Selves
- Writing and Place
- Remix: Chaucer in the Then and Now
- Writing Crime Fiction.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** QW38.

**Hyd:** 3 blynedd.





# Ysgrifennu Creadigol

22% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

Mae ein cwrs Ysgrifennu Creadigol yn cynnig cyfleoedd cyffrous ac amrywiol i ysgrifennu mewn amryw helaeth o ffurfiau a genres. Yma yn Aberystwyth byddwch yn datblygu sgiliau creadigol dychmygol a dyfeisgar a fydd yn eich galluogi i weithio'n hyderus ac yn effeithiol ar draws amrywiaeth o arddulliau.

Mae'r radd hon yn cynnig cwricwlwm eang sy'n torri ar draws ffiniau pwnc traddodiadol. Cewch gyfleoedd i arbrofi gyda genre, ffurf, iaith, cyfryngau, arddull a chyflwyniad.

Wedi ichi gwblhau'r radd hon byddwch yn gallu ysgrifennu'n hyderus, gan deilwra eich gwaith i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Fe fydd gennych ymwybyddiaeth graff o faterion fel cywair, strwythur, genre a swyddogaeth a byddwch yn trosi'r rhain i'ch ysgrifennu eich hun.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Ysgrifennu Creadigol yn Aberystwyth:

- cyfle i ddysgu ochr yn ochr â thîm o awduron nodedig, arobryn, sy'n gweithio ar draws sbectrwm eang o feysydd creadigol
- cymryd rhan mewn enciliad ysgrifennu a gynhelir mewn tŷ yng nghefn gwlad canolbarth Cymru
- traddodiad cryf o ddysgu arbenigol ym meysydd barddoniaeth gyfoes, y nofel graffig, ffuglen trosedd, ysgrifennu am fywyd, ffuglen hanesyddol, ffuglen wyddonol, ac ysgrifennu ar gyfer y llwyfan, y sgrin, a'r radio
- cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau llenyddol a diwylliannol blaenllaw fel y *New Welsh Review* – prif gylchgrawn llenyddol Cymru – a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth - un o'r canolfannau celfyddydol mwyaf yng Nghymru.

**Cyflogadwyedd**

Mae llawer o'n graddedigion yn ysgrifenwyr llwyddiannus ac yn cyhoeddi mewn amrywiaeth fawr o feysydd megis ffuglen, ysgrifennu ffeithiol, y cyfryngau newyddiadurol, barddoniaeth, ysgrifennu ar gyfer y sgrin a drama. Mae eraill wedi datblygu gyrfa lwyddiannus ym maes cyhoeddi, newyddiaduraeth, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, dysgu, golygu, a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Critical Perspectives on Creative Writing
- Creative Practice.

**Yr ail flwyddyn:**

- Beginning the Novel.

**Y flwyddyn olaf:**

- The Writing Project.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Kapow! Reading and Writing Graphic Narratives
- Adventures with Poetry
- Telling True Stories
- Writing Selves
- Writing and Place
- Writing Crime Fiction
- Exploring Professional Writing
- Reading and Writing Fantasy Fiction
- Reading and Writing Science Fiction
- Shaping Plots
- Poetry for Today
- Speculative Fiction and the Climate Crisis
- Writing for Film and Television
- Scriptwriting
- Videogame Theories.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** W801.

**Hyd:** 3 blynedd.



# Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun | Prif/is-bwnc |
|---|---|---|---|
| Llenyddiaeth Saesneg | Addysg | QX33 | |
| | Astudiaethau Ffilm a Theledu | QW36 | |
| | Celfyddyd Gain | WQ13 | |
| | Cyfryngau | | P3Q3 |
| | Drama a Theatr | QW34 | |
| | Ffotograffiaeth | WQ63 | |
| | Ffrangeg | QR31 | |
| | Hanes | QV31 | |
| Ysgrifennu Creadigol | Astudiaethau Ffilm a Theledu | WP83 | |
| | Celfyddyd Gain | WW18 | |
| | Cyfryngau | | P3W8 |
| | Drama a Theatr | W841 | |
| | Ffotograffiaeth | WW68 | |
| | Ffrangeg | WR81 | |
| | Hanes | WV81 | |
| | Sbaeneg | WR84 | |

**2ail yn y DU**


am fodlonrwydd cyffredinol ym maes Ysgrifennu Creadigol

(Complete University Guide 2022)

**Ar y brig yn y DU**

am fodlonrwydd cyffredinol ym maes Saesneg

(Complete University Guide 2022)



# Astudiaethau Saesneg a TESOL

8% ar gael drwy'r Gymraeg

## (gyda blwyddyn sylfaen integredig)

### BA (Anrh)

Wedi'i chynllunio ar gyfer darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir academaidd ddigonol neu berthnasol, y Flwyddyn Sylfaen Integredig yw eich llwybr mynediad i'r cynllun gradd hynod boblogaidd hwn. Yn ystod y flwyddyn sylfaen, byddwch yn datblygu sgiliau a gwybodaeth a fydd yn rhoi ichi sail academaidd gadarn i'ch galluogi i ffynnu ar ôl symud ymlaen i'r cwrs llawn y flwyddyn ganlynol.

Mae'r cwrs BA mewn Astudiaethau Saesneg a TESOL (dysgu Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill) gyda blwyddyn sylfaen integredig yn gyfle ichi astudio llenyddiaeth Saesneg ar hyd y canrifoedd, i ddadansoddi'r defnydd o iaith, i archwilio ysgrifennu at wahanol ddibenion creadigol, ac i ddatblygu sgiliau TESOL. Ar yr un pryd, cewch ddatblygu eich dealltwriaeth o'r iaith Saesneg a chaffaeliad iaith i'ch galluogi i ddysgu Saesneg fel ail iaith, gan wella'ch rhagolygon gyrfaol ar gyfer y dyfodol. Cewch hefyd ddewis dilyn cwrs a fydd yn arwain at gymhwyster proffesiynol annibynnol - y dystysgrif dysgu saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (TESOL).

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Astudiaethau Saesneg a TESOL (gyda blwyddyn sylfaen integredig) yn Aberystwyth:

- dysgu ochr yn ochr ag ymchwilwyr sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol am eu cyfraniad i wybodaeth a hyrwyddo'r disgyblaeth
- manteisio ar draddodiad cryf o addysgu TESOL, ysgrifennu menywod, daearyddiaeth lenyddol, llenyddiaeth plant, ysgrifennu o Gymru yn Saesneg, ysgrifennu LGBTQ+, llenyddiaeth ôl-drefedigaethol, astudiaethau'r canol oesoedd a Rhamantiaeth, ymhlith eraill.

**Cyflogadwyedd**
Gyda gradd mewn Astudiaethau Saesneg a TESOL byddwch mewn sefyllfa dda i wneud cais i astudio'n bellach neu i gael swydd yn syth ar ôl graddio. Bydd y llwybrau gyrfaol fydd ar gael ichi'n cynnwys ysgrifennu copi digidol, golygu, dysgu Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill, geiriadureg, newyddiaduraeth cylchgronau, papurau newydd, neu'r cyfryngau newydd a chyhoeddi.

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y gallwch eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Sylfaen Sgiliau Academaidd 1 a 2/Academic Skills Foundation 1 & 2
- Critical Thinking and Research Skills
- Foundation - Dialogue
- Foundation in Liberal Arts
- Learning Experience.

**Yr ail flwyddyn:**
- Critical Practice
- Creative Practice
- Language Awareness for TESOL.

**Y flwyddyn olaf:**
- Literary Theory: Debates and Dialogues
- Approaches, Methods, and Teaching Techniques in TESOL.
- Y flwyddyn olaf:
- Undergraduate Dissertation or The Writing Project
- TESOL Materials Development and the Application of Technologies.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Kapow! Reading and Writing Graphic Narratives
- Adventures with Poetry
- Telling True Stories
- Writing Selves
- Writing and Place
- Writing Crime Fiction
- Reading and Writing Fantasy Fiction
- Shaping Plots
- Poetry for Today
- Contemporary Queer Fictions
- Demons and Degenerates
- Literature and the Sea
- Contemporary Writing and Climate Crisis
- Reading and Writing Science Fiction.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

### Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** Q33F.

**Hyd:** 4 blynedd.



# Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

## (gyda blwyddyn sylfaen integredig)

25% ar gael drwy'r Gymraeg

### BA (Anrh)

Bydd ein cwrs cyfun mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn eich galluogi i ddatblygu i fod yn ymarferydd creadigol a beirniadol. Bydd y radd yn eich helpu i ehangu amrywiaeth a hyd a lled eich dawn ysgrifennu, a'ch galluogi i weithio'n hyderus mewn sawl ffurf neu genre. Wedi'i chynllunio ar gyfer darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir academaidd ddigonol neu berthnasol, y Flwyddyn Sylfaen Integredig yw eich llwybr mynediad i'r cynllun gradd hynod boblogaidd hwn.

Gan astudio ysgrifennu o bob cyfnod, a magu ymwybyddiaeth o'r cyd-destun llenyddol a diwylliannol, byddwch yn dod yn ymarferydd ysgrifennu adfyfyriol.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol (gyda blwyddyn sylfaen integredig) yn Aberystwyth:

- cyfle i ddysgu ochr yn ochr â thîm o awduron nodedig, arobryn, sy'n gweithio ar draws sbectrwm eang o feysydd creadigol
- ymuno ag adran sydd â thraddodiad cryf o addysgu arbenigol ym maes llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol, ar draws ystod eang o gyfnodau ac arddulliau
- cymryd rhan mewn enciliad ysgrifennu a gynhelir mewn tŷ yng nghefn gwlad canolbarth Cymru
- manteision disgyblaeth gyfunol sy'n caniatáu ichi ddatblygu'n greadigol ac i feddwl yn feirniadol.

**Cyflogadwyedd**
Mae gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn cynnig hyfforddiant 'safon aur' ar gyfer unrhyw swydd lle mae cyfathrebu yn hollbwysig. Mae llawer o'n graddedigion yn ysgrifenwyr llwyddiannus ac yn cyhoeddi mewn amrywiaeth fawr o feysydd megis ffuglen, ysgrifennu ffeithiol, y cyfryngau newyddiadurol, barddoniaeth, ysgrifennu ar gyfer y sgrin a drama. Mae eraill wedi datblygu gyrfa lwyddiannus ym maes cyhoeddi, newyddiaduraeth, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, dysgu, golygu, a hysbysebu.

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Sylfaen Sgiliau Academaidd 1 a 2/Academic Skills Foundation 1 & 2
- Critical Thinking and Research Skills
- Foundation - Dialogue
- Foundation in Liberal Arts
- Learning Experience.

**Yr ail flwyddyn:**
- Creative Practice
- Critical Practice.

**Y drydedd flwyddyn:**
- Literary Theory: Debates and Dialogues.

**Y flwyddyn olaf:**
- The Writing Project
- Undergraduate Dissertation.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Ancestral Voices
- Contemporary Queer Fictions
- Kapow! Reading and Writing Graphic Narratives
- Degenerates and New Women (Fin De Siècle Fictions)
- Greek and Roman Epic and Drama
- Re-imagining Nineteenth-century Literature
- Literature and the Sea
- Adventures with Poetry
- Contemporary Writing and Climate Crisis
- Telling True Stories: Ways of Writing Creative Non-fiction
- Writing Selves
- Writing and Place
- Remix: Chaucer in the Then and Now
- Writing Crime Fiction.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

### Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** QW3F.

**Hyd:** 4 blynedd.

# Encil ysgrifennu Gregynog

## a chyfleoedd ychwanegol

Yn eich blwyddyn olaf cewch elwa o’r encil ysgrifennu blynyddol gyda chymhorthdal llawn, a gynhelir mewn maenordy hardd yng nghefn gwlad Canolbarth Cymru. Mae’r digwyddiad hynod boblogaidd hwn yn gyfle ichi fwynhau heddwch o hwrlibwrli bywyd y campws, wrth ddatblygu traethawd hir eich blwyddyn olaf a phrosiectau ysgrifennu creadigol.

Yn ogystal ag Encil Ysgrifennu Gregynog, mae sawl cyfle ichi ymwneud â’r diwylliant lenyddol. Mae teithiau am ddim (a thocynnau am ddim) i’r enwog Ŵyl y Gelli yn nodwedd flynyddol yn ein calendr, a byddwch hefyd yn cael gostyngiad ym mhrisiau perfformiadau yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth.

Mae ein myfyrwyr yn cyhoeddi blodeugerdd o’u gwaith creadigol a beirniadol bob blwyddyn. Mae Aberlink, sy’n cael ei ysgrifennu, ei ddylunio a’i olygu gan fyfyrwyr, yn gyfle i chi arddangos nid yn unig eich ysgrifennu ond hefyd eich sgiliau ar draws ystod eang o weithgareddau rheoli prosiect, yn cynnwys gweithio gyda therfynau amser, rheoli cyllid, a digwyddiadau hyrwyddo.





# Ymchwil

Bydd astudio Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn Aberystwyth yn sicrhau nid yn unig addysgu o'r radd flaenaf ond hefyd y cewch fanteisio ar amgylchedd dysgu ac addysgu sy'n cael ei ddylanwadu gan ymchwil o safon ryngwladol. Mae ein holl staff yn ymchwilwyr gweithredol yn eu meysydd a thrwy gydol eich cwrs fe'ch dysgir gan rai o ysgolheigion blaengar Prydain yn y byd ysgrifennu creadigol ac astudiaethau llenyddol.

Mae ein hymchwil yn rhoi sail i'n haddysgu ac mae ein diddordebau ymchwil yr un mor eang a dynamig â'n maes llafur. Cewch eich dysgu gan bobl sy'n ysgrifennu llyfrau ar y pynciau yr ydych yn dysgu amdanynt, gan bobl a ysgrifennodd farddoniaeth, nofelau, straeon byrion, ysgrifennu ffeithiol, sgriptiau, a nofelau graffig sy'n cael eu darllen gennych, a chan ysgolheigion sy'n dadansoddi ac astudio gweithiau o'r fath mewn manylder.

Gweledigaeth y Brifysgol yw i gyfrannu at gymdeithas yng Nghymru a'r byd yn ehangach trwy gymhwyso ei gwybodaeth i heriau lleol a byd-eang. Er mwyn cyflawni hyn yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol rydym yn defnyddio rhwydwaith helaeth o gysylltiadau cenedlaethol a byd-eang ac yn cydweithredu ar brosiectau cyffrous ac arloesol. Tra'n astudio gyda ni, byddwch yn ymgysylltu â'r ymchwil pwysig hwn ac yn elwa ohono er mwyn gwella'ch gwybodaeth a'ch profiad. Mae canolfannau ymchwil ContemPo a Chanolfan David Jones yn ddwy enghraifft o'r gweithgaredd rhyngwladol bywiog hwn. Mae ContemPo yn ganolfan ymchwil gydweithrediadol sydd â diddordeb arbennig (heb fod yn anghynhwysol) i ymchwilio i farddoniaeth arbrofol a cherddi perfformio a'u poëteg. Y prif weithgaredd yw rhaglen gyffrous o bapurau sy'n cysylltu dros fideo, seminarau, a pherfformiadau gan feirdd ac ysgolheigion barddoniaeth ledled y byd.



Mae Canolfan David Jones yn cefnogi ymchwil ar hanes ac effaith moderniaeth yng Nghymru ac ar ryngweithio creadigol y testunol a'r gweledol. Mae'r Ganolfan yn cynnal cynhadledd ryngwladol a chyfres o seminarau ac yn ceisio hyrwyddo posibiliadau cyffrous ar gyfer ymchwil newydd a gynigir gan archifau llenyddol ac artistig Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae ein meysydd ymchwil arbenigol yn cynnwys:

- Literary geographies
- Welsh Writing in English
- The Anthropocene
- Pain
- Surveillance culture
- Disordered sleep
- Postmemory
- Psychoanalysis
- Medievalism
- Experimental Poetry
- Modernism
- Working-class poetics
- Digital humanities
- Girlhood
- Early modern drama
- Asian-American writing
- Queer writing
- Politics and national identity
- Science fiction
- Life writing
- Pigs







# Cyfleoedd byd-eang



Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth gyffrous o ddewisiadau ichi fynd dramor am ran o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd i wirfoddoli yn ystod yr haf i dreulio semester neu flwyddyn lawn yn astudio'r pwnc o'ch dewis yn un o'r prifysgolion sy'n bartner inni.

Mae'r brifysgol hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn astudio dramor. Mae hyn yn eich galluogi i astudio yn un o'n prifysgolion partner yn Ewrop neu mewn rhan arall o'r byd am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd blwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn derfynol ac i raddio.

Mae adroddiadau'n dangos bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o gyflog na'u cyfoedion. Cymrwch fantais o'r cyfle unigryw hwn i wella eich sgiliau allweddol trwy ddewis astudio dramor.

## Myfyrwyr Ieithoedd

Mae myfyrwyr sy'n astudio mwy nag un iaith yn Aberystwyth yn treulio blwyddyn ychwanegol yn astudio neu'n gweithio dramor. Mae'r cyfnod yn byw dramor yn gwella rhuglder a hyder yn yr ieithoedd a ddewisir ac yn ymdrwytho myfyrwyr yn niwylliant y wlad.



























# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**Gair i gall:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**Gair i gall:** Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety


Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

## 7 Dechreuwch bacio!








Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol,
Prifysgol Aberystwyth,
Adeilad Hugh Owen,
Aberystwyth, SY23 3DY

+44(0) 1970 62 1537

english@aber.ac.uk

/ecw.aberystwyth.co.uk

@AberEnglishDept

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2022.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%